# Band eang ffibr cyflym iawn yn cyrraedd Dolwyddelan

Bydd band eang ffibr cyflym iawn yn dod i'r pentref ym mis Medi 2015.

**Beth fydd hyn yn ei olygu?** Yn fyr, mae'n golygu y byddwn ni'n gallu lawrlwytho deunydd o'r we yn gynt, o bosib hyd at ddwywaith neu deirgwaith yn gynt. Os ydych chi eisoes yn defnyddio band eang, neu'n ystyried ei ddefnyddio, dyma'r adeg ichi ddechrau edrych yn fanwl am y dewisiadau band eang 'ffibr optig' sydd ar gael.

Bydd y band eang cyflym iawn newydd yn defnyddio ceblau ffibr optig BT. Fodd bynnag, fe allwch chi ddewis gan bwy i brynu'ch gwasanaeth er enghraifft gan Sky, TalkTalk, PlusNet ac yn y blaen. Felly mae dau ddewis -

**- Gwneud dim byd a pharhau fel rydych chi (gan gadw'r cyflymder gwe sydd gennych chi eisoes).**

**- Prynu neu newid i fand eang cyflym iawn (fydd yn ddrytach wrth gwrs).**

Unwaith bydd BT wedi gosod cypyrddau ffibr optig yn y pentref, fel yr un gwyrdd sydd gyferbyn â siop SPAR, fe fyddwch chi'n gallu edrych yn fanwl ar gostau darparwyr gwahanol.

Rydw i'n argymell eich bod chi'n edrych ar ychydig o safleoedd cymharu prisiau i weld beth sydd gan ddarparwyr gwahanol i'w cynnig. Edrychwch ar safleoedd fel:

www.broadbandchoices.co.uk neu www.uswitch.com/broadband

Ond peidiwch â derbyn y prisiau mae eich darparwr band eang presennol yn ei gynnig ichi yn unig. Efallai y gallwch chi hyd yn oed fargeinio gyda nhw os ydych chi'n gwybod pa brisiau allwch chi eu cael gan ddarparwyr eraill. Bydd eich darparwr newydd yn rhoi cyfarwyddiadau ichi ar beth fydd angen ichi ei wneud er mwyn newid o'ch darparwr presennol.

Pob hwyl wrth chwilio ..

**Paul Donnelly**
macBear Design Ltd.


Gwasanaeth adeiladu gwefan fforddiadwy.
Yn fodlon dod i'ch cartref.
Cymorth lleol i roi eich cyfrifiadur ar waith a'i ddefnyddio.

macBear Design

Cysylltu â ni:
Ffôn: 07534 120193
E-bost: paul@macbear-design.com